

**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**

**Economy, Trade and
Rural Affairs Committee**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

8 Chwefror 2022

Annwyl Weinidog,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws) yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror. Mae adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm wedi'i osod cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 10 Chwefror.

Ysgrifennaf i dynnu eich sylw at wybodaeth bellach y gofynnodd y Pwyllgor amdani cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm, fel y nodir ym mharagraffau 20 a 21 yr adroddiad:

- Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cymal 27 fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, yn creu anghysondeb, o ystyried pwerau datganoledig mewn perthynas ag unrhyw ofynion o ran cau busnesau Cymru yn y dyfodol. At hynny, mae'n nodi'r awydd i'r Bil gael ei ddiwygio fel bod yn rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru – a rhoi cydsyniad – i unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud i'r cyfnod moratoriwm gan yr Ysgrifennydd Gwladol (cymal 9).
- Mae paragraff 6 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi "Cytunwyd y byddai fy swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu a phasio Bil ar gyfer Cymru a Lloegr." Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm yn rhoi unrhyw fanylion am drafodaethau y gallai Llywodraeth Cymru fod yn eu cael ag Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU ynghylch y ddau gymal hyn, nac a yw diwygiadau'n cael eu cynnig neu'n cael eu hystyried. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol – at



ddibenion gwaith craffu'r Pwyllgor – cael rhagor o wybodaeth am hyn, a byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar petai'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog yn dod i law cyn gynted â phosibl. At hynny, fe fyddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau o'r Senedd am unrhyw welliannau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael â'r materion hyn, cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm hwn.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both Welsh and English.